**LC1502**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

## The Curd Cheese (Restriction on Placing on the Market) (Wales) (Revocation) Regulations 2007

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Caws Ceuled (Cyfyngiad ar ei roi ar y farchnad) (Cymru) 2006 oedd yn rhoi mesur rheoli brys ar waith mewn perthynas â chaws ceuled a gynhyrchir gan Bowland Dairy Products Ltd.

Gwnaed y Rheoliadau ar 5 Mawrth 2007 gan ddefnyddio'r Weithdrefn Weithredol a daethant i rym ar 6 Mawrth 2007.

### Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Gwnaed y Rheoliadau yn Saesneg yn unig. [Rheol Sefydlog 11.7(viii)]

Diddymodd y Comisiwn Ewropeaidd ei benderfyniad i wahardd rhoi caws ceuled wedi'i gynhyrchu gan Bowman Dairy Products Ltd ar y farchnad ar 2 Mawrth 2007. Gan nad yw'r cwmni'n cynhyrchu unrhyw gynnyrch arall ni fu'n gallu masnachu yn ystod cyfnod y gwaharddiad. Er mwyn caniatáu i fasnachu ailddechrau cyn gynted â phosibl, gwnaed y Rheoliadau gan ddefnyddio'r weithdrefn Weithredol ac roedd y Gweinidog o'r farn nad oedd yn rhesymol ymarferol gwneud y Rheoliadau'n ddwyieithog yn yr amser a oedd ar gael.

## Sylwadau

Dim.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 13 Mawrth 2007